# Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

## Coleg Cambria

**Mai 2019**

## Canfyddiadau allweddol

### Beirniadaethau QAA am Goleg Cambria

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngholeg Cambria.

- **Gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.**
- **Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.**

### Y meysydd sydd angen eu datblygu

Canfu'r tîm adolygu'r **meysydd canlynol sydd angen eu datblygu** yng Ngholeg Cambria sydd â'r potensial i wella ansawdd a/neu i sicrhau ymhellach bod y safonau academaidd yn ddibynadwy ac/neu yn gymaradwy. Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n fuddiol i Goleg Cambria:

- adolygu a gwella hygyrchedd yr amodau a thelerau i'r holl fyfyrwyr ar gamau allweddol o'r broses dderbyn, gan gynnwys darpariaeth Pearson (Diogelu'r Defnyddwyr).

### Gwelliannau penodol

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw welliannau penodol.

## Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 14 a 15 Mai 2019 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Peter Hymans
- Penny Renwick
- Sarah Bennett (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i'r corff cyllido perthnasol am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

## Ynghylch Coleg Cambria

Sefydlwyd Coleg Cambria (y Coleg) ym mis Awst 2013 drwy gyfuno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl. Mae'n gweithredu ar draws pum campws ac mae ganddo gyfanswm o fwy na 12,000 o fyfyrwyr (roedd 423 ohonynt yn astudio ar raglenni addysg uwch yn 2018). Mae Coleg Cambria'n cynnig addysg bellach, dysgu i oedolion, prentisiaethau, dysgu seiliedig ar waith, rhaglenni cyswllt ysgolion, ac addysg uwch. Dim ond y rhaglenni addysg uwch sy'n perthyn i gwmpas yr adolygiad hwn.

Dyma fydd yr adolygiad cyntaf gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch i Goleg Cambria. Mae ei raddau a'i raddau sylfaen wedi'u hetholfreinio iddo gan ei brifysgolion partner ar hyn o bryd, ac mae'r Coleg wedi derbyn dynodiad cwrs penodol ar gyfer ei raglenni Pearson. Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg bartneriaethau gyda Phrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Abertawe, Prifysgol John Moores Lerpwl, Prifysgol Caer, Prifysgol Glyndŵr, a Pearson.

# Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

## *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ)

1 Mae gan staff y Coleg ddealltwriaeth dda o ofynion y FHEQ. Mae pob un o'r cytundebau partneriaeth rhwng y Coleg a'i gyrff dyfarnu'n nodi bod y cyrff dyfarnu'n gyfrifol am sefydlu safonau academaidd. Cymerodd y Coleg ran yn y gwaith o ddatblygu rhai o'r rhaglenni, gan gynnwys y rhaglen FdSc mewn Rheoli Troseddwyr, Cyfiawnder Troseddol a Chymdeithasol gyda staff y Coleg yn gweithio ochr yn ochr â staff y corff dyfarnu. Yn ystod y broses hon, bu staff y Brifysgol yn sicrhau bod y safonau academaidd yn cyfateb gyda'r disgrifwyr perthnasol sydd yn y FHEQ, y Datganiadau Meincnodi Pwnc a'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Graddau Sylfaen, cyn digwyddiad dilysu yn y Brifysgol. Ymgynghorwyd â chyflogwyr hefyd yn ystod y broses o ysgrifennu'r rhaglen. Ar gyfer rhaglenni Pearson, gan y sefydliad dyfarnu mae'r cyfrifoldeb cyfan am sefydlu safonau academaidd y rhaglen.

2 Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi datblygu ffurflen fewnol ar gyfer cymeradwyo cyrsiau addysg uwch, a dylid cyflwyno hon i'r Grŵp Llywio Addysg Uwch am mai'r grŵp hwn sy'n gyfrifol am reoli'r strategaeth addysg uwch ar lefel strategol. Mae'r ffurflen hon wrthi'n cael ei dilysu yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth ac mae'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r galw am y cyrsiau a'r angen am adnoddau, ond nid yw'n ymdrin â safonau academaidd.

3 Mae rhai o'r rhaglenni y mae Coleg Cambria'n eu cynnig wedi'u teilwra i anghenion diwydiannau lleol, gan gynnwys adeiladu a pheirianneg awyrenneg. Yn yr achosion hyn, mae'r Coleg yn meincnodi ei raglenni drwy eu hachredu gyda'r cyrff proffesiynol perthnasol a safonau sgiliau'r DU.

## *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC)

4 Mae Coleg Cambria'n nodi bod y rhaglenni y mae'n eu cynnig yn cyfateb â'r golofn addysg uwch yn y fframwaith FfCChC ac y glynir at bob un o'r wyth egwyddor lefel uwch wrth ddatblygu rhaglenni. Mae'n nodi hefyd eu bod yn arbennig o ofalus wrth weithio gyda phrifysgolion yn Lloegr i sicrhau eu bod yn glynu at yr wyth egwyddor a'r gwerthoedd cyffredin: canlyniadau dysgu, lefelau a gwerthoedd credyd. Dywedodd y staff hynny y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw bod y FHEQ yn alinio gyda'r FfCChC a bod staff yn croesgyfeirio ac yn mapio'r FfCChC ar draws rhaglenni'r Coleg, er nad oedd hynny wedi'i gofnodi.

5 Y cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am y trefniadau casglu a throsglwyddo credydau ar gyfer rhaglenni sy'n alinio â safonau FfCChC, ac maent yn gwneud hynny drwy eu gwaith o achredu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â dysgu blaenorol. Am fod y trefniadau credydau ar gyfer y FHEQ a'r FfCChC wedi'u halinio, mae'r gweithdrefnau'n berthnasol i'r ddau fframwaith. Dim ond un cais a gafwyd am drosglwyddo credyd rhwng rhaglenni ac mae'r Coleg yn gweithio gyda'r corff dyfarnu i sicrhau bod y credyd yn cael ei drosglwyddo yn unol â'r rheoliadau ar gyfer y rhaglen.

## Y cod llywodraethu perthnasol: megis y Cod Llywodraethu Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion neu'r Cod Llywodraethu Da i Golegau yn Lloegr gan Gymdeithas y Colegau

6 Mae gan y Coleg drefniadau effeithiol i gynnal a goruchwylio ei brosesau llywodraethu academaidd. Mae Corff Llywodraethu'r Coleg yn cyfarfod bob mis ac mae ganddo 20 o aelodau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y byd busnes a'r gymuned leol, aelodau o staff y Coleg, llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr a'r Prif Weithredwr. Mae'r Corff Llywodraethu'n dilyn saith elfen yr arferion llywodraethu da sydd wedi'u nodi yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru

(a gyhoeddwyd gan ColegauCymru), ac mae'n goruchwylio'r ddarpariaeth addysg uwch gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, yn cynnwys adolygu a thrafod adroddiadau rheolaidd sy'n ymwneud â data am gynnydd y myfyrwyr, canlyniadau'r myfyrwyr a'r ddarpariaeth addysg uwch. Arweinir y Corff Llywodraethu gan y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Pennaeth, sy'n derbyn cefnogaeth gan yr uwch dîm rheoli.

7 Mae'r Grŵp Llywio Addysg Uwch yn goruchwylio'r ddarpariaeth addysg uwch ac mae ganddo'r cyfrifoldeb strategol am reoli a gweithredu'r Strategaeth Addysg Uwch. Gall y Grŵp Llywio Addysg Uwch wneud argymhellion i'r uwch dîm rheoli, y Bwrdd, ac is-bwyllgorau'r Llywodraethwyr fel y bo'r gofyn. Yn unol â'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru, mae'r Corff Llywodraethu'n cwrdd â staff a chyflogwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys mynd am dro drwy'r dosbarthiadau a chyfarfod â llywodraethwyr cyswllt. Mewn cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu, roedd cynrychiolwyr y Llywodraethwyr yn teimlo bod y drefn hon yn rhoi dull effeithiol iddynt o oruchwylio'r ddarpariaeth addysg uwch yn y Coleg.

8 Mae Cofrestr Risgiau'r Coleg, sy'n cynnwys darpariaeth addysg bellach a darpariaeth addysg uwch, yn cael ei rheoli gan y Grŵp Rheoli Risgiau: maent yn adolygu a chategoreiddio risgiau posibl gan ddefnyddio system cod lliwiau sydd wedi'i seilio ar Gynllun Strategol y Coleg. Adolygir y Gofrestr Risgiau gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau bob tymor, neu'n amlach os oes angen, ac mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd amdani i'w dadansoddi a'u cymeradwyo.

## Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

9 Mae'r prifysgolion partner yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am osod safonau academaidd drwy ddatblygiad rhaglenni ac mae cyfrifoldeb ar y cyd ganddynt am gynnal y safonau hynny, fel y mae wedi'i nodi yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth, drwy ddyrannu cyfrifoldebau'n gydlynol. Mae gan y Coleg gytundebau partneriaeth gyda'r pum sefydliad addysg uwch y mae'n gweithio â nhw, ac mae'r cytundebau'n amlinellu'r cyfrifoldebau'n glir. Roedd gan y staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw ddealltwriaeth glir o'r ffordd y maent yn gweithio gyda'u partneriaid i sicrhau ar y cyd bod y safonau academaidd ar gyfer cymwysterau'r Coleg yn cael eu cynnal.

10 Datblygir polisïau asesu gan brifysgolion partner y Coleg, a chafodd polisïau asesu cymwysterau Cenedlaethol Uwch Pearson eu datblygu gan y Coleg yn unol â rheoliadau a chanllawiau Pearson. Mae manylebau'r rhaglenni a'r modiwlau'n nodi'n glir beth yw lefel academaidd a chanlyniadau dysgu'r modiwlau a asesir. Mae'r tasgau asesu wedi'u halinio â'r canlyniadau dysgu. Mae'r Coleg yn sicrhau cymorth gyda'r asesu gan arbenigwyr pwnc Pearson, ac mae'r prosesau safoni mewnol wedi'u dogfennu'n glir. Mae pob Prifysgol partner yn gosod y safonau ar gyfer y rhaglenni y mae'n eu hetholfreinio i'r Coleg. Mewn rhai achosion, mae'r Coleg yn defnyddio'r asesiadau a osodir gan y Brifysgol. Mewn achosion eraill, bydd y Coleg yn ysgrifennu'r asesiadau a bydd y Brifysgol yn eu dilysu cyn iddynt gael eu cyflwyno. Mae prifysgolion partner y Coleg yn rhoi cefnogaeth iddo drwy ymweliadau ffurfiol ac anffurfiol, a chyfarfodydd sy'n cynnwys y Cyd-fyrddau Astudiaethau a phroses safoni/croes-farcio. Soniodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw bod y disgwyliadau mewn asesiadau wedi'u disgrifio'n glir a bod y marcio'n alinio'n agos gyda'r canlyniadau dysgu a fwriedir a gyda meini prawf graddio clir. Mae'r Coleg yn defnyddio prosesau safoni mewnol ynghyd â phrosesau safoni'r Brifysgol partner perthnasol i sicrhau bod y myfyrwyr yn cyflawni'r safonau priodol mewn asesiadau. Cefnogir y gwaith marcio drwy ddefnyddio matrics adborth. Mae'r safonau a gyflawnir gan y myfyrwyr yn cael eu gwirio gan arholwyr allanol a benodir gan brifysgolion partner y Coleg a/neu gan Pearson. Mae'r Coleg yn defnyddio adborth gan arholwyr allanol i'w sicrhau ei hun fod trefniadau asesu priodol ar waith. Yn rhan o'r cylch ansawdd, mae'r Rheolwr Partneriaethau Addysg Uwch a Chydymffurfiad yn cynhyrchu adroddiad cyfansawdd sy'n derbyn ystyriaeth gan y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch. Cymerir camau gweithredu manwl mewn ymateb i adborth gan arholwyr allanol, ac mae tystiolaeth o hyn mewn adroddiadau monitro blynyddol.

11 Mae'r Corff Llywodraethu'n defnyddio data'n strategol i gael trosolwg o 'iechyd' y cyrsiau ac mae'n defnyddio hwn i driongli â mesurau eraill sy'n llai cadarn megis cyfarfodydd gyda myfyrwyr. Mae'r Llywodraethwr Cyswllt yn chwarae rôl bwysig drwy sicrhau bod gan y Bwrdd ddealltwriaeth fanwl o'r data. Hefyd, mae'r Coleg yn mapio arolygon mewnol yn erbyn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) ac mae'r data hwn yn derbyn ystyriaeth gan y Bwrdd. Mae'r Coleg yn monitro cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant y myfyrwyr drwy ei adroddiad monitro blynyddol a'i gynllun gwella ansawdd. Mae pob un o'r mesurau hyn yn dangos cyfraddau uchel sydd wrthi'n codi'n barhaus. Mae'r Grŵp Gweithredu Addysg Uwch yn monitro data am gynnydd y myfyrwyr yn ystod y flwyddyn drwy'r cynlluniau gwella ansawdd addysg uwch. Creffir yn agos ar ddata am bresenoldeb a chadwraeth y myfyrwyr mewn cyfarfodydd Monitro Rhaglenni Addysg Uwch. Mae staff y Coleg yn defnyddio dangosfwrdd data i fonitro cynnydd y myfyrwyr ar lefel y rhaglenni ac ar lefel strategol.

## Y feirniadaeth

12 Mae trefniadau sicrhau ansawdd y Coleg yn briodol o ran ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau tuag at ei gyrff dyfarnu a'i sefydliad dyfarnu, ac i alinio â'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol wrth gynnal safonau academaidd.

13 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

# Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr

## Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

14 Mae gan Goleg Cambria brosesau trwyadl ar gyfer rheoli a monitro ansawdd profiad academaidd ei fyfyrwyr. Rhwng misoedd Medi a Thachwedd, mae'r tîm academaidd yn datblygu adroddiadau monitro blynyddol ar gyfer pob rhaglen sy'n cael ei chyflwyno i dderbyn cymeradwyaeth gan y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch. Ar ôl eu cymeradwyo, anfonir yr adroddiadau hyn at y Brifysgol. Mae timau'r rhaglenni'n mynychu cyfarfodydd byrddau astudiaethau'r partneriaid lle trafodir yr adroddiadau hyn.

15 Mae adroddiad monitro blynyddol y Coleg, a gynhyrchir ym mis Rhagfyr, yn tynnu at ei gilydd adroddiadau monitro blynyddol y rhaglenni, gan bennu themâu gwelliant i'r Coleg cyfan drwy adnabod materion cyffredin sydd angen sylw a meysydd o arfer da. Cafodd 'dysgu ac addysgu' ei bennu o'r adroddiad cyfredol fel thema lle mae angen gwelliant ac mae hyn yn derbyn sylw drwy nifer o gamau gweithredu, sy'n cynnwys Cynhadledd Dysgu ac Addysgu i'r Coleg cyfan ym mis Gorffennaf 2019. Roedd gan y Gynhadledd Addysg Uwch flynyddol yn 2018 y thema 'asesu' oherwydd pennwyd hwn yn faes oedd angen ei wella drwy'r broses o fonitro rhaglenni'n flynyddol.

16 Mae boddhad y myfyrwyr gyda'r dysgu a'r addysgu'n cael ei fonitro drwy ddadansoddi data am bresenoldeb a chadwraeth y myfyrwyr, arolygon gwerthuso modiwlau ac arolygon o foddhad y myfyrwyr ar lefel y rhaglenni. Defnyddir y ddau fath yma o arolwg hefyd i wella'r ddarpariaeth ar lefel y rhaglenni ac ar lefel y Coleg drwy adnabod themâu trawstoriadol. Mae tiwtoriaid yn defnyddio gwerthusiadau o fodiwlau i'w helpu i fyfyrio ar y sefyllfa er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a rhennir y rhain gyda'r myfyrwyr a'r partneriaid dyfarnu. Cynhelir fforymau staff-myfyrwyr ddwywaith y flwyddyn naill ai gyda'r prifysgolion partner neu'n fewnol.

17 Mae'r Coleg wedi datblygu cylch sicrhau a gwella ansawdd effeithiol sydd wedi'i gefnogi gan galendr blynyddol o weithgareddau sicrhau a gwella ansawdd, yn ogystal â fframwaith o brosesau a gweithdrefnau sy'n nodi'n glir beth yw cyfrifoldebau'r Coleg a beth yw cyfrifoldebau'r prifysgolion partner. Mae'r Polisi Gwella'n nodi'n glir iawn sut y gellir sicrhau gwelliant. Cesglir data i gael ei ystyried gan y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch, y Grŵp Llywio Addysg Uwch a'r Cyd-fyrddau Astudiaethau. Mae canlyniadau'r ystyriaeth hon yn hysbysu adroddiadau monitro blynyddol â chynlluniau gwella ansawdd.

18 Mae Siarter y Myfyrwyr Addysg Uwch yn nodi bod y myfyrwyr yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain ac am gael gafael ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Pwysleisir hyn yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Cefnogir y myfyrwyr yn ogystal â'u herio drwy eu sesiynau tiwtora personol i wneud cynnydd da yn eu dysgu drwy fanteisio ar y cyfleoedd niferus y mae'r Coleg yn eu cynnig, er enghraifft rhaglenni Cymraeg, cymwysterau llythrennedd digidol, datblygiad sgiliau a chymwysterau rhifedd a llythrennedd, cystadlaethau, lleoliadau gwaith a phrosiectau yn y gweithle.

19 Cytunwyd ar y penderfyniad fod pob myfyriwr addysg uwch i gael sesiwn diwtora bersonol am awr yr wythnos yng nghyfarfod yr uwch dîm rheoli yn 2017. Cafodd y staff eu hatgoffa am hyn yng nghyfarfod y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch ym mis Ebrill. Anogir y myfyrwyr i olrhain eu cynnydd yn erbyn targedau dysgu unigol drwy ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol. Mae defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn opsiynol ar hyn o bryd i fyfyrwyr addysg uwch ac, er bod hyn wedi'i ddatblygu'n dda mewn rhai meysydd, nid yw wedi cael ei fabwysiadu'n gyffredinol gan bob myfyriwr. Os na ddefnyddir meddalwedd y Coleg i lunio cynlluniau dysgu unigol yna dylid dilyn proses gyfatebol ar gyfer yr holl fyfyrwyr o fis Medi 2019 ymlaen. Yn rhan o hyn, cytunwyd y byddai'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n astudio'n rhan amser, yn cael awr yr wythnos o amser tiwtorial.

20 Mae'r Coleg yn hynod effeithiol am gasglu adborth gan fyfyrwyr ac ymateb iddo. Mae boddhad y myfyrwyr gyda'r dysgu a'r addysgu'n cael ei fonitro drwy arolygon gwerthuso modiwlau ac arolygon o foddhad y myfyrwyr ar lefel y rhaglenni. Defnyddir y ddau fath yma o arolwg hefyd i wella'r ddarpariaeth ar lefel y rhaglenni ac ar lefel y Coleg drwy adnabod themâu trawstoriadol. Er nad yw'r Coleg yn cymryd rhan yn yr ACF, mae'n gwneud ei arolwg ei hun o farn ei fyfyrwyr addysg uwch gyda chwestiynau sydd wedi'u geirio'n debyg i'r ACF i alluogi i'r Coleg feincnodi ei ddarpariaeth. Mae canlyniadau'r arolwg o ddysgwyr addysg uwch yn derbyn ystyriaeth gan y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch ac yn cael eu monitro ar lefel y Bwrdd.

21 Hysbysir y myfyrwyr am y camau a gymerwyd mewn ymateb i'w hadborth drwy gyflwyno papur 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' mewn fforymau myfyrwyr addysg uwch. Roedd y camau a gymerwyd yn cynnwys cymorth gyda llunio cyfeiriadau, cefnogaeth gan y gwasanaethau llyfrgell oedd wedi cynnal sesiynau ychwanegol yn y dosbarth, a phroses o uwchraddio'r adnoddau llyfrgell ar draws y safleoedd a oedd yn cynnwys creu mannau addysg uwch o fewn llyfrgelloedd.

22 Mae'r Grŵp Gweithredu Addysg Uwch yn gyfrifol am oruchwylio'r adnoddau ar gyfer cyrsiau addysg uwch, ac mae cylch gwaith y Grŵp yn cynnwys y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau a chymorth i fyfyrwyr, ac am brosesau hunanasesu, monitro a gwella ansawdd. Mae cofnodion cyfarfodydd y Grŵp yn dangos yn glir bod materion sy'n ymwneud ag adnoddau dysgu a chymorth dysgu wedi derbyn ystyriaeth ganddo.

23 Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Coleg wedi buddsoddi'n sylweddol i gefnogi datblygiad ei ddarpariaeth addysg uwch. Gwariwyd rhywfaint o'r arian hwn ar ddatblygu'r staff a'r adnoddau dysgu ac addysgu, a defnyddiwyd gweddill y buddsoddiad i ddatblygu mannau addysg uwch newydd, oedd yn cynnwys Canolfan Peirianneg y Brifysgol, y Canolfannau Mynediad ac Addysg Uwch yng Nglannau Dyfrdwy ac Iâl a'r Ysgol Fusnes yn Llaneurgain. Mae'r myfyrwyr addysg uwch yn elwa hefyd o'r Ganolfan Technoleg Peirianneg newydd ar Ffordd y Bers. Dywedodd y myfyrwyr fod yr adnoddau o safon uchel, er bod angen offer mwy datblygedig mewn rhai meysydd.

24 Er mwyn addysgu ar raglen addysg uwch, mae angen i staff feddu, fan leiaf, ar radd gyntaf neu radd gyfatebol, a chymhwyster addysgu. Mae curricula vitae'r staff yn cael eu gwirio gan y Cyfarwyddwr Ansawdd ac Addysg Uwch cyn eu cyflwyno i'r sefydliad dyfarnu ac yna cânt eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y corff dyfarnu neu Pearson. Lle gwneir newidiadau i'r staff, cyflwynir y curricula vitae i dderbyn cymeradwyaeth gan y Brifysgol berthnasol cyn i'r staff ddechrau addysgu ar y rhaglen hon. Mewn perthynas â rhaglenni Pearson, mae newidiadau yn y staff yn cael eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Ansawdd ac Addysg Uwch. Mae'r Coleg yn cefnogi ei staff i ennill graddau a chymwysterau addysgu i'w galluogi i addysgu ar lefel addysg uwch, ac mae hefyd yn eu cefnogi i ennill y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch a chymwysterau ar lefel gradd meistr. Yn rhan o ymgysylltiad y Coleg ag Advance HE, mae ei staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad, ac mae'r Coleg hefyd yn cefnogi ei staff i ennill statws Cymrawd neu Gymrawd Cyswllt Advance HE.

25 Mae Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu'r Coleg yn darparu fframwaith da ar gyfer adeiladu rhagoriaeth mewn addysgu. Yn rhan o'r strategaeth, mae ei staff addysg uwch yn cymryd rhan mewn proses o arsylwi gan gymheiriaid sy'n eu galluogi i rannu arferion da mewn dysgu ac addysgu. Yn ychwanegol, mae'r holl staff addysg uwch yn cael eu harsylwi'n ffurfiol unwaith y flwyddyn o leiaf yn rhan o'u hasesiad a'u datblygiad, gydag adroddiad arsylwi cyfansawdd yn derbyn ystyriaeth yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch.

26 Mae'r Coleg yn gwahodd cyflogwyr i Grŵp Ffocws Cyflogwyr dair gwaith y flwyddyn. Mae cofnodion y cyfarfod ym mis Mehefin 2018 yn dangos bod nifer dda wedi mynychu a bod rhan o'r agenda'n ymwneud yn benodol â'r ddarpariaeth addysg uwch.

27 Mae gwybodaeth am raglenni addysg uwch y Coleg, gan gynnwys am y ffioedd, y cymorth, y cyfleusterau a'r adnoddau, ar gael i randdeiliaid ar wefan y Coleg, ar y fewnrwyd addysg uwch, mewn prosbectws printiedig, mewn llythyrau cynnig ac ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r wefan yn atyniadol, ond nid yw'n hawdd cyrraedd yr wybodaeth i gyd, er enghraifft, mae'r amodau a thelerau o dan y ddolen 'Pam Cambria?'

28 Mae gan y Rheolwr Partneriaethau Addysg Uwch a Chydymffurfiad y cyfrifoldeb am oruchwylio'r prosesau o ddatblygu polisïau'r Coleg, y staff, a'r wybodaeth sydd wedi'i thargedu at y myfyrwyr. Datblygir polisïau gan yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y maes penodol a chânt eu hystyried yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch ac yna'u cymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethwyr. Nid oes gan y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch na'r Grŵp Strategaeth Addysg Uwch gyfrifoldeb penodol am ystyried neu gymeradwyo gwybodaeth am y ddarpariaeth addysg uwch yn eu cylchoedd gwaith. Ni ymgynghorir â'r myfyrwyr yn rheolaidd yn ystod y broses o ddatblygu polisïau neu weithdrefnau newydd. Mae gwybodaeth farchnata'n cael ei chymeradwyo gan y Pennaeth Marchnata cyn ei chyhoeddi neu ei gosod ar y wefan. Rheolir gwybodaeth sydd i gael ei chyhoeddi ar y wefan gan y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer y maes astudio, ac mae ffurflen wybodaeth newydd am gyrsiau wedi cael ei datblygu i'w chwblhau gan Arweinwyr Rhaglen er mwyn ei chyflwyno i'r Adran Farchnata pan fydd y wefan yn cael ei diweddaru. Yn ymarferol, mae gan y Rheolwr Partneriaethau Addysg Uwch y cyfrifoldeb am fonitro'r holl wybodaeth am y ddarpariaeth addysg uwch ac am sicrhau ei bod yn cael ei diweddaru fel y bo raid.

29 Yn ddiweddar, ym mis Ebrill 2019, mae'r Coleg wedi datblygu Siart Llif y Broses o Ddatblygu Dogfennau. Mae'r siart llif yn rhoi gwybodaeth glir am y camau i'w cymryd wrth ddatblygu dogfennau, megis asesu eu heffaith ar gydraddoldeb a'u cyfieithu i'r Gymraeg, ac am rôl y Bwrdd Llywodraethwyr o ran cymeradwyo polisïau a gweithdrefnau'n derfynol. Rhannwyd y siart llif gyda'r staff, ond nid yw'r siart wedi'i weithredu'n llawn eto.

## Y cod llywodraethu perthnasol

30 Mae gan y Coleg drefniadau llywodraethu boddhaol i sicrhau bod cwynion myfyrwyr yn derbyn sylw'n effeithiol a bod lles y myfyrwyr yn cael ei sicrhau. Dirprwyir y cyfrifoldeb am reoli adborth a chwynion i Brif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth y Coleg sy'n atebol i'r Corff Llywodraethu, gyda daliwr y swydd uwch yn llofnodi'r canlyniad terfynol.

31 Adolygir cwynion ac adborth gan fyfyrwyr yn rheolaidd i wella gwasanaethau'r Coleg a phennu unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol. Cyhoeddir y data hwn mewn adroddiad chwarterol sy'n nodi'n fanwl y canlyniadau a'r camau gweithredu a gymerwyd, ac unrhyw dueddiadau. Mae'r adroddiad yn cael ei basio ymlaen yn rheolaidd i Gorff Llywodraethu'r Coleg, ac mae'n cynnwys ystadegau sy'n ymwneud â manylion y datrysiadau a'r amser a gymerwyd i ddatrys y cwynion.

32 Er bod y Coleg wedi cymryd camau i annog y myfyrwyr i gymryd rhan mewn prosesau llywodraethu academaidd, ac er bod tystiolaeth sy'n dangos bod aelodaeth myfyrwyr ar bwyllgorau'n cael ei chefnogi, gan gynnwys drwy enwebu dau lywodraethwr sy'n fyfyrwyr addysg bellach, cydnabuwyd bod diffyg cynrychiolaeth o blith y myfyrwyr ar lefel addysg uwch. Mae'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ar gyfer addysg uwch a gyfarfu â'r tîm adolygu'n deall ei rôl yn glir, ac mae'n cyfathrebu diddordebau'r myfyrwyr addysg uwch i'r ddau lywodraethwr o blith y myfyrwyr addysg bellach sydd ar y Bwrdd. Mae'r tîm adolygu'n cydnabod bod y broses o gynrychioli llais y myfyrwyr yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, gyda'r nod o ddatblygu mecanwaith adrodd ffurfiol rhwng cynrychiolwyr y myfyrwyr addysg uwch a'r llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr addysg bellach, er mwyn sicrhau bod llais y myfyrwyr addysg uwch yn derbyn sylw ymhob agwedd o lywodraethu academaidd.

33 Mae gan y Coleg ystod o wasanaethau cymorth myfyrwyr i ddiogelu ei fyfyrwyr a'u lles. Mae gwybodaeth am gymorth i fyfyrwyr ar gael yn Siarter y Myfyrwyr Addysg Uwch ac ar wefan y Coleg, ac mae'n cynnwys cyfeiriadau at Dîm Diogelu'r Coleg. Roedd yr holl fyfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw'n ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt, yn ogystal â'r trefnau apelio neu gwyno.

## Y polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i sicrhau bod y dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr yn cael eu cyflawni (cyfarwyddyd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd)

34 Mae'r Coleg yn gyfrifol am recriwtio pob myfyriwr addysg uwch ac am dderbyn pob myfyriwr addysg uwch, heblaw'r rheiny sy'n gwneud cais i gael lle ar raglenni Aberystwyth neu Abertawe. Nid oes gan y Coleg ei bolisi derbyn ei hun, ond mae'n dibynnu ar bolisïau ei bartneriaid addysg uwch ac yn gweithio yn unol â Threfn Dderbyn a Map o Broses Dderbyn ar gyfer myfyrwyr addysg uwch, y mae'r Rheolwr Partneriaethau Addysg Uwch a Chydymffurfiad yn gyfrifol amdanynt, ac sy'n cael eu cymeradwyo gan y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer pob partner wedi'u dogfennu'n glir, yn gyson ac yn eglur. Mae ymgeiswyr am le ar raglenni Pearson yn dilyn proses dderbyn benodol wedi'i dogfennu ar gyfer rhaglenni ar etholfraint gan Pearson, ac maent yn cyflwyno eu cais yn uniongyrchol. Mae'r ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn llythyr cynnig safonol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gan y Coleg bolisi i hysbysu'r broses ymgeisio ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol. Siaradodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw mewn ffordd gadarnhaol am eu profiadau gyda'r broses dderbyn, oedd wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn a'u cyd-destun o ran cyflogaeth.

35 Mae'r Coleg yn cynhyrchu Prosbectws Graddau a Datblygiad Proffesiynol sy'n cynnwys gwybodaeth am bob cwrs ac am y partner dilysu perthnasol. Mae'r prosbectws yn rhoi gwybodaeth am hyd, cynnwys a chynnydd y cyrsiau. Rhoddir gwybodaeth am fwrsariaethau lle maent ar gael, ond ni chynhwysir gwybodaeth am ffioedd. Mae gwybodaeth am y cyrsiau ar gael hefyd yn uniongyrchol o'r wefan: mae'r wybodaeth hon yn fwy manwl ac mae'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth am faterion megis ffioedd a chostau ychwanegol y cwrs. Er enghraifft, mae rhestr offer ar gael ar gyfer y rhaglen Rheoli Anifeiliaid. Mae'r tîm adolygu'n nodi bod gwybodaeth ynglŷn â'r gofyniad am wiriad gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar y cwrs Astudiaethau Plentyndod Cynnar ar gael ar y wefan, ond nid yn y prosbectws.

36 Mae'r Coleg yn defnyddio amodau a thelerau ei brifysgolion partner ar gyfer eu darpariaeth nhw. Ar gyfer darpariaeth Pearson, mae'r Coleg yn nodi ei bod yn defnyddio canllawiau Pearson i ddarparu Contract Dysgu. Ond, nid yw'r ddogfen hon yn nodi'r amodau a thelerau'n ddigon manwl. Rôl y Contract Dysgu yw cyfeirio'r myfyrwyr at wybodaeth y byddent wedi'i derbyn o'r blaen, megis cyngor a chanllawiau cychwynnol sy'n cynnwys manylion y cyrsiau a chyrsiau cyfatebol eraill y gallent eu dewis, y gofynion mynediad, cyfleoedd i symud ymhellach, yr ymrwymiad amser ac arian sy'n ofynnol i gwblhau'r cwrs/cyrsiau, ac unrhyw gymorth ariannol neu gymorth arall sydd efallai ar gael iddynt, a gwybodaeth am eu hawliau a Chod Ymddygiad y Coleg. Mae Cytundeb Dysgwr yn gyfle i nodi'r gofynion mynediad ac mae'n dangos y gallai gwiriad GDG fod yn ofynnol ar gyfer rhai cyrsiau.

37 Tynnodd y staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw sylw at y ffaith fod gwybodaeth ar gael i fyfyrwyr ar y wefan am yr amodau a thelerau cyn iddynt wneud cais, a'r ffaith eu bod yn derbyn rhagor o wybodaeth yn y cyfweliadau, ac yn y llythyrau cynnig gan y sefydliadau addysg uwch partner ar y cam cynnig. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn y llawlyfrau i fyfyrwyr. Canfu'r tîm adolygu bod amodau a thelerau prifysgolion partner y Coleg ar gael drwy'r wefan, ond eu bod yn anodd eu canfod. Anfonir llythyrau cynnig ar gyfer rhaglenni'r prifysgolion gan y Brifysgol berthnasol gyda'i hamodau a thelerau wedi'u hatodi. Mae llythyr cynnig y Coleg ar gyfer myfyrwyr Pearson yn cynnwys dolenni at wefan y Coleg a'r Contract Dysgu, ond nid yw'r contract hwn yn nodi'r amodau a thelerau'n hollol glir. Nid yw'r Llawlyfr Myfyrwyr, er ei fod yn fanwl ac yn ddefnyddiol, yn nodi'n benodol beth yw'r amodau a thelerau. Roedd y myfyrwyr

y cyfarfu'r tîm â nhw'n bennaf yn fyfyrwyr oedd yn parhau i astudio ac a oedd yn deall gofynion y Coleg, ac roeddent yn teimlo bod digon o wybodaeth ar gael iddynt. Soniodd myfyrwyr eraill eu bod wedi canfod yr wybodaeth ofynnol o sawl ffynhonnell.

38 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad nad yw'n hawdd canfod na chyrchu'r amodau a thelerau ac nad yw gwybodaeth eglur a diamwys am yr amodau a thelerau'n cael ei darparu i'r myfyrwyr bob amser. Mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: dylai'r Coleg adolygu a gwella hygyrchedd yr amodau a thelerau i'r holl fyfyrwyr ar gamau allweddol o'r broses dderbyn, gan gynnwys darpariaeth Pearson (Diogelu'r Defnyddwyr).

39 Mae'r Coleg yn tanysgrifio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Hysbysir prifysgolion partner y Coleg am unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'u darpariaeth. Mae Polisi Cwynion y Coleg yn gynhwysfawr ac mae'n rhoi hawl i unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan wasanaethau'r Coleg, gan gynnwys ymgeiswyr, fynd ati i gwyno a rhoi adborth. Mae'r polisi hwn ar gael ar y wefan. Datblygwyd rhestr wirio ar gyfer ymsefydlu ac mae'n cynnwys cyfeiriad at drefn gwyno. Nododd y tîm adolygu nad yw Siarter y Myfyrwyr Addysg Uwch yn cyfeirio'n benodol at drefn gwyno. Fodd bynnag, roedd pob un o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n deall yn glir sut i gwyno ac yn pwysleisio mor bwysig yw hi i siarad gyda'u tiwtoriaid neu eu cynrychiolwyr myfyrwyr i ddatrys problemau'n gyflym.

## Y trefniadau diogelu myfyrwyr

40 Mae Polisi Adborth a Chwynion y Coleg ar gael i'r myfyrwyr, y staff a darpar fyfyrwyr ar wefan y Coleg ac ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg, a chyfeirir y myfyrwyr ato yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Mae'r Polisi Cwynion Addysg Uwch wedi'i seilio ar ganllawiau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae'n cynnwys manylion y gweithdrefnau a'r amseriadau y cytunwyd arnynt a phwy i gysylltu â hwy mewn perthynas â chwynion ac apeliadau. Mae polisi ffurfiol ar wahân sy'n ymdrin ag apeliadau academaidd i fyfyrwyr sydd ar raglenni addysg uwch. Mae hwn yn darparu dolenni hefyd, gan gynnwys cyfeiriad at weithdrefnau pob un o'r partneriaid dyfarnu ar gyfer apeliadau academaidd.

41 Gweithredir trefnau cwyno yn unol ag amseriadau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, sydd wedi'u nodi'n glir ac yn fanwl ym mholisi'r Coleg. Er enghraifft, cydnabyddir bod cwyn wedi'i derbyn o fewn tri diwrnod gwaith a rhoddir ymateb iddi o fewn 15 diwrnod gwaith ar y cam ymchwilio. Cydnabyddir bod apêl wedi'i derbyn o fewn pum diwrnod gwaith. Yn yr un modd, ysgrifennwyd Polisi Apeliadau Academaidd y Coleg yn unol â *Phennod B9* y Cod Ansawdd, ac mae'n nodi y bydd y broses i fyfyrwyr ei dilyn i wneud apêl academaidd yn deg ac yn sicrhau cyflawniad gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw oll yn gwybod sut i gwyno neu gyflwyno apêl academaidd, ac awgrymwyd bod modd datrys y rhan fwyaf o gwynion yn anffurfiol.

42 Mae manylion yn ymwneud â chau cyrsiau, neu faterion yn ymwneud ag ail-ddilysu cyrsiau a gymeradwywyd yn flaenorol, i'w cael ym Mhrosbectws Addysg Uwch y Coleg, sydd ar gael ar wefan y Coleg ac yn Siarter y Myfyrwyr Addysg Uwch. Mae'r prosbectws yn esbonio bod cyrsiau a restrir ar wefan y Coleg wedi'u seilio ar achrediad fersiwn blaenorol neu gyfredol y cwrs, ac y bydd unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'r cwrs wedi'u gwneud gynted ag y bo'r Coleg yn cael gwybod amdanynt. Os na fydd unrhyw gyrsiau wedi'u hachredu yn ôl y bwriad, neu os byddent wedi'u hoedi neu eu newid yn annisgwyl, yna byddai'r Brifysgol berthnasol yn rhoi gwybod am hyn i'r myfyrwyr, a byddai'r Coleg yn cymryd camau i gysylltu â'r myfyrwyr yn uniongyrchol. Byddai'r Coleg yn gweithio gyda'r corff dyfarnu i sicrhau dilyniant ym mhrofiad y myfyrwyr, a disgrifiodd y staff y cyfarfu'r tîm â nhw sut y byddai'r myfyrwyr y cynigiwyd lle iddynt yn derbyn cymorth i ganfod naill ai gwrs cyfatebol arall neu ddarparwr arall.

43 I grynhoi, mae'r Coleg yn dangos dull effeithiol o reoli cwynion ac apeliadau academaidd. Er nad yw'r Coleg wedi cael profiad hyd yn hyn o gau cwrs neu newid rhaglen a hysbysebwyd, byddai'r Coleg yn cymryd camau gweithredu i hysbysu a chefnogi'r myfyrwyr yn ystod y broses.

## Y feirniadaeth

44 Mae un maes sydd angen ei ddatblygu yn y maes beirniadaeth hwn. Mae'n ymwneud â diogelu'r defnyddwyr ac yn rhoi gofyniad ar y Coleg i wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch ac yn fwy eglur i'r myfyrwyr. O fewn y maes diogelu defnyddwyr, mae angen darparu gwybodaeth fwy hygyrch am yr amodau a thelerau, yn arbennig i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio darpariaeth Pearson. Mae'r maes sydd angen ei ddatblygu'n ymdrin ag achos bach o hepgoriad neu amryfusedd, neu'n cynnwys diweddaru dulliau nad ydynt yn gofyn unrhyw newidiadau gweithredol mawr.

45 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

## Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

46 Mae'r Coleg yn cymryd ei gyfrifoldebau am gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg yn ddifrifol iawn. Mae ganddo Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, y Gymraeg a Rhyngwladol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Mae'r Pennaeth Dwyieithrwydd yn monitro'r ymlyniad â'r Safonau Iaith Gymraeg, ac mae'r Corff Llywodraethu'n sicrhau bod y Coleg yn cydymffurfio â hwy. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn derbyn Adroddiad ar Gydymffurfiad â'r Safonau Iaith Gymraeg, ac un o bum prif amcan y Coleg sydd wedi'u nodi yn y Datganiad Budd y Cyhoedd yw cydymffurfiad o ran bodloni'r Safonau Iaith Gymraeg. Un o flaenoriaethau'r Bwrdd yw ehangu'r cyfleoedd Cymraeg. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2018, tynnwyd sylw'r Llywodraethwyr at eu dyletswyddau statudol, ynghyd â'r cynnydd a gyflawnwyd gan y Coleg o ran gweithredu ei Strategaeth Iaith Gymraeg a darparu cyfleoedd dwyieithog yn y rhanbarth. Cyfeiriwyd yn arbennig at nifer y myfyrwyr a ddewisodd astudio yn y Coleg oedd wedi bod yn ddisgyblion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, a chyfeiriwyd at ragor o gyfleoedd o bosib i gynnig darpariaeth gyfrwng Cymraeg i'r myfyrwyr hynny. Cyhoeddir y Safonau Iaith Gymraeg ar y wefan ac maent yn derbyn sylw yng Nghofrestr Risgiau'r Coleg. Ategir y safonau gan Bolisi Iaith Gymraeg. Un o nodau allweddol y Cynllun Addysg Uwch i ategu'r Datganiad Budd y Cyhoedd yw cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio rhai neu bob un o'u rhaglenni drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog i gyfateb â darpariaeth addysg bellach y Coleg. Cyhoeddir adroddiad bob blwyddyn ar wefan y Coleg am weithrediad y Safonau Iaith Gymraeg.

47 Mae bron pob gwybodaeth a gohebiaeth ysgrifenedig yn ddwyieithog, gan gynnwys y wefan a'r holl ddeunyddiau hyrwyddo. Mae'r Drefn Dderbyn ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn nodi'n glir na fydd cyfathrebiadau a dderbynnir yn y Gymraeg, neu mewn unrhyw iaith arall, yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rheiny a dderbynnir yn y Saesneg.

48 Mae Siarter y Myfyrwyr Addysg Uwch yn nodi ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, fel sydd wedi'i nodi hefyd yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Coleg. Holir ymgeiswyr am eu sgiliau Cymraeg ac a ydynt yn dymuno cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Hyrwyddir yr iaith Gymraeg yn weithredol i'r corff myfyrwyr fel sgil ar gyfer y gweithle, ac mae cyfleoedd i'r myfyrwyr, y staff a'r llywodraethwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, gan gynnwys dysgu sgiliau lefel uwch hyd at lefel gradd meistr. Ar bob un o'i safleoedd, mae'r Coleg yn darparu unedau iaith Gymraeg yn rhan o gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Saesneg, gyda thiwtor iaith Gymraeg sy'n addysgu ochr yn ochr â'r arbenigwyr pwnc. Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog yn yr ardal i wella'r ddarpariaeth ddwyieithog y mae'n ei chynnig.

49 Mae'r staff yn atgyfnerthu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg, gan ddefnyddio cyfarchion Cymraeg yn y dosbarth fel cyfle anffurfiol. Yn fwy ffurfiol, cynhelir dosbarthiadau nos ac mae 20 i 30 o fyfyrwyr o bob rhan o'r Coleg yn cymryd rhan ynddynt. Ar hyn o bryd, mae 24% o fyfyrwyr y Coleg yn ddwyieithog. Gall y myfyrwyr ddewis cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu, a chlywodd y tîm adolygu am fyfyriwr sydd wedi dewis cyflwyno ei holl waith i'w asesu yn y Gymraeg, er mai Saesneg yw iaith yr addysgu. Roedd y myfyrwyr a welwyd yn siarad yn gadarnhaol am y ffordd y mae'r staff yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ac am y cyfleoedd i gael eu haddysgu a'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddent yn ymwybodol hefyd o'r cyfle i gymryd rhan mewn dosbarthiadau dysgu Cymraeg, er nad oedd unrhyw un o'r myfyrwyr a welwyd wedi gwneud hynny. Hyrwyddir cyfleoedd drwy Google Classroom, ar y fewnrwyd ac wrth gofrestru, ac hefyd yn anffurfiol.

**QAA2426 - R10473 - Awst 2019**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2019
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050
Gwefan: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)